

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Gwerth Lluosyddion Gwahaniaethol) (Cymru) 2026

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Gwerth Lluosyddion Gwahaniaethol) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
20 Ionawr 2026

RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Gwerth Lluosyddion Gwahaniaethol) (Cymru) 2026 (y Rheoliadau) yn rhagnodi gwerthoedd y lluosyddion gwahaniaethol sy'n gymwys i hereditamentau annomestig perthnasol (unedau eiddo gydag asesiad ardrethu) yng Nghymru o 1 Ebrill 2026 ymlaen. Mae'r Rheoliadau yn pennu'r rhifau a ddefnyddir i gyfrifo'r lluosydd manwerthu a'r lluosydd uwch, fel cyfran o'r lluosydd safonol (nad yw'r Rheoliadau yn effeithio ar ei gyfrifiad).

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae rhan A2 o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn gwneud darpariaeth ynghylch lluosyddion ardrethu annomestig yng Nghymru. Mae paragraff A16 o Atodlen 7 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi lluosyddion gwahaniaethol yn seiliedig ar werth ardrethol hereditamentau ar restr ardrethu leol neu ganolog, a'r disgrifiad o hereditamentau ar restr leol. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Disgrifiad o Luosyddion Gwahaniaethol) (Cymru) 2025 (Rheoliadau 2025) yn galluogi rhoi effaith i luosydd manwerthu a lluosydd uwch, drwy nodi'r hereditamentau y byddant yn gymwys iddynt o 1 Ebrill 2026.
4. Mae paragraff A16(1) o Atodlen 7 yn rhagnodi'r fformiwla $M \times N$ ar gyfer cyfrifo lluosydd gwahaniaethol, pan mai "M" yw'r lluosydd ardrethu annomestig a gyfrifir ar gyfer y flwyddyn ariannol y codir swm ynglŷn â hi o dan baragraff A14 neu A15 o Atodlen 7 (y lluosydd safonol), ac mae "N" yn rhif a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Gan fod 2026-27 yn flwyddyn ailbriso, cyfrifwyd y lluosydd safonol o dan baragraff A14 o Atodlen 7.
5. Yn unol ag adran 143A(5)(m) o Ddeddf 1988, mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

6. Mae'r Rheoliadau yn rhoi effaith i'r lluosyddion gwahaniaethol a alluogir gan Rheoliadau 2025, drwy nodi gwerthoedd "N" a ddefnyddir i gyfrifo'r lluosyddion manwerthu ac uwch fel cyfran o'r lluosydd safonol ar gyfer blwyddyn ariannol y codir swm ynglŷn â hi. Nid yw'r Rheoliadau yn effeithio ar y lluosydd safonol ("M") o 0.502 a gyfrifir ar gyfer 2026-27.
7. At ddibenion cyfrifo'r lluosydd manwerthu (a ddisgrifir gan reoliad 3 o Reoliadau 2025), pennir bod "N" yn 0.697. Effaith hyn yw gosod y lluosydd manwerthu 30.3% yn is na'r lluosydd safonol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 y codir

swm ynglŷn â hi, y lluosydd manwerthu sy'n deillio o hynny yw 0.350 (0.502×0.697).

8. At ddiben cyfrifo'r lluosydd uwch (a ddisgrifir gan reoliadau 4 a 5 o Reoliadau 2025, pennir bod "N" yn 1.026. Effaith hyn yw gosod y lluosydd uwch 2.6% uwchben y lluosydd safonol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 y codir swm ynglŷn â hi, y lluosydd uwch sy'n deillio o hynny yw 0.515 (0.502×1.026).
9. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i gyfrifo lluosyddion gwahaniaethol ar gyfer blynnyddoedd ariannol y codir swm ynglŷn â hwy, sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny.

Ymgynghori

10. Cynhaliwyd [ymgynghoriad](#) ar gynigion i gyflwyno lluosyddion gwahaniaethol rhwng 21 Mai a 12 Awst 2025. Daeth 172 o ymatebion i law gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau, unigolion, awdurdodau lleol, cynrychiolwyr sectorau, cyrff proffesiynol, asiantau ardrethu ac academyddion. Cyhoeddwyd [crynodeb o'r ymatebion](#) ar 7 Hydref 2025.

RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Opsiynau

11. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno tri opsiwn yn ymwneud â diffinio lluosyddion gwahaniaethol. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn:
- **Opsiwn 1 – Cadw dim ond lluosydd safonol (gwneud dim).** Byddai'r opsiwn hwn yn cadw lluosydd sengl sy'n gymwys i bob hereditament ac nid yn rhoi effaith i'r lluosyddion manwerthu neu uwch sydd wedi'u galluogi. Ni fyddai angen unrhyw ddeddfwriaeth.
 - **Opsiwn 2 – Deddfu i roi effaith i'r lluosydd manwerthu.** Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi effaith i luosydd manwerthu is ac yn addasu cyfrifiad y lluosydd safonol i wrthbwysu'r refeniw a gollwyd.
 - **Opsiwn 3 – Deddfu i roi effaith i'r lluosyddion manwerthu ac uwch (gwneud y Rheoliadau).** Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi effaith i luosydd manwerthu is a lluosydd uwch heb wneud unrhyw addasiad i'r lluosydd safonol.
12. [Cyhoeddwyd](#) Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n nodi costau a manteision ansoddol yr opsiynau hyn mewn perthynas â Rheoliadau 2025. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn adeiladu ar yr asesiad blaenorol drwy enghreifftio'r costau a'r manteision meintiol.

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Cadw dim ond lluosydd safonol (gwneud dim)

13. Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig ag opsiwn 1, sef y senario sylfaenol. Byddai lluosydd sengl yn parhau i fod yn gymwys i bob hereditament yn y sylfaen dreth, wedi'i gyfrifo fel 0.502 ar gyfer 2026-27.
14. Er y byddai hyn yn osgoi ychwanegu cymhlethdod i'r system ardrethi annomestig, byddai hefyd yn debygol o achosi dryswch ymhlith rhanddeiliaid, gan fod cyhoeddiadau a chmau galluogi sy'n gysylltiedig ag opsiynau 2 neu 3 eisoes wedi'u gwneud. Ni fyddai manwerthwyr bach a chanolig yn elwa o'r dull polisi a gadarnhawyd yn flaenorol yn dilyn ymgynghoriad.

Opsiwn 2 – Deddfu i roi effaith i luosydd manwerthu

15. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi effaith i luosydd manwerthu is ar gyfer manwerthwyr bach a chanolig. Amcangyfrifir y byddai talwyr ardrethi ar gyfer tua 14,500 o hereditamentau yn elwa ar y lluosydd manwerthu is.
16. Byddai'r lluosydd manwerthu is yn cael ei osod ar werth o 0.350. Gan na roddid effaith i luosydd uwch o dan yr opsiwn hwn, byddai'n angenrheidiol addasu'r lluosydd safonol o'i werth diodyn o 0.502 i 0.510. Byddai hyn yn sicrhau nad yw

cyflwyno'r lluosydd manwerthu yn lleihau cyfanswm y refeniw ardrethi annomestig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lleol.

17. Byddai hereditamentau sy'n ddarostyngedig i'r lluosydd manwerthu yn denu atebolrwyddau sydd 30.3% yn is nag y byddent o dan opsiwn 1. Byddai gwerth y fantais ariannol i dalwr ardrethi unigol yn gymesur â'i atebolrwydd, yn seiliedig ar werth ardrethol yr hereditament ac a yw'n gymwys i gael unrhyw ryddhad. Er enghraifft, byddai'r fantais yn 2026-27 yn £7,600 ar gyfer hereditament sydd â gwerth ardrethol o £50,000 nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw ryddhad.

$$\text{Opsiwn 1: } £50,000 \times 0.502 = £25,100$$

$$\text{Opsiwn 2: } £50,000 \times 0.350 = £17,500$$

$$\text{Mantais: } £25,100 - £17,500 = £7,600$$

18. Byddai'r fantais hon yn is ar gyfer hereditamentau sy'n llai (yn ôl gwerth) neu sy'n denu rhyddhad. Bydd rhai talwyr ardrethi yn meddiannu mwy nag un hereditament cymwys. Amcangyfrifir y byddai'r cyfanswm gwerth i'r holl fuddiolwyr oddeutu £20m yn 2026-27.

19. Crynhoir nifer amcangyfrifedig yr hereditamentau a fyddai'n ddarostyngedig i fanteision o wahanol symiau isod (Tabl 1). Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y gwahaniaeth mewn atebolrwydd rhwng y lluosydd manwerthu a'r lluosydd safonol a fyddai fel arall yn gymwys o dan opsiwn 1. Er mwyn galluogi'r amcangyfrifon hyn, mae rhai rhagdybiaethau eang wedi'u gwneud ynghylch cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a Rhyddhad Elusennol.

Tabl 1: Amcangyfrif o'r manteision i dalwyr ardrethi ar y lluosydd manwerthu

Lleihad mewn atebolrwydd o ganlyniad i'r lluosydd manwerthu	Nifer yr hereditamentau
<£500	4,500
£500 - £999	2,800
£1,000 - £1,999	3,100
£2,000 - £2,999	2,100
£3,000 - £3,999	900
£4,000 - £4,999	500
£5,000 - £5,999	300
£6,000 - £6,999	200
£7,000 - £7,999	100

20. Byddai pob hereditament arall yn ddarostyngedig i'r lluosydd safonol, wedi'i addasu i fod 1.6% yn uwch nag y byddai fel arall o dan opsiwn 1. Byddai gwerth y gost ariannol i dalwr ardrethi unigol yn gymesur â'i atebolrwydd. Er enghraifft, byddai'r gost yn 2026-27 yn £400 ar gyfer hereditament sydd â gwerth ardrethol o £50,000 nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw ryddhad.

$$\text{Opsiwn 1: } £50,000 \times 0.502 = £25,100$$

$$\text{Opsiwn 2: } £50,000 \times 0.510 = £25,500$$

$$\text{Cost: } £25,500 - £25,100 = £400$$

21. Byddai'r gost hon yn is ar gyfer hereditamentau llai (yn ôl gwerth) ac yn uwch ar gyfer hereditamentau mwy, yn amodol ar unrhyw ryddhad sydd hefyd yn gymwys. Byddai talwyr ardrethi ar gyfer pob hereditament sy'n ddarostyngedig i'r lluosydd safonol, gan gynnwys busnesau bach nad ydynt yn elwa ar y lluosydd manwerthu, yn wynebu costau ychwanegol cymedrol (oni bai eu bod yn derbyn rhyddhad llawn).
22. Ar gyfer hereditamentau sydd â gwerthoedd ardrethol dros £100,000, byddai atebolrwyddau o dan yr opsiwn hwn yn fwy nag ar gyfer opsiwn 1 (ond yn is nag ar gyfer opsiwn 3). Er enghraifft, byddai'r gost yn 2026-27 yn £808 ar gyfer hereditament sydd â gwerth ardrethol o £101,000 nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw ryddhad.
- $$\text{Opsiwn 1: } £101,000 \times 0.502 = £50,702$$
- $$\text{Opsiwn 2: } £101,000 \times 0.510 = £51,510$$
- $$\text{Cost: } £51,510 - £50,702 = £808$$
23. Byddai'r gost hon yn uwch ar gyfer hereditamentau mwy (yn ôl gwerth). Bydd rhai talwyr ardrethi yn meddiannu mwy nag un hereditament a fyddai'n ddarostyngedig i'r lluosydd safonol.
24. Crynhoir nifer amcangyfrifedig yr hereditamentau a fyddai'n ddarostyngedig i'r lluosydd safonol uwch isod (Tabl 2). Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar yr atebolrwydd cynyddol a fyddai'n deillio o luosydd safonol o 0.510, o'i gymharu â'r lefel ddiofyn o dan opsiwn 1 (0.502). Er mwyn galluogi'r amcangyfrifon hyn, mae rhai rhagdybiaethau eang wedi'u gwneud ynghylch cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a Rhyddhad Elusennol.

Tabl 2: Amcangyfrif o'r costau cynyddol i dalwyr ardrethi ar y lluosydd safonol

Cynnydd mewn atebolrwydd o ganlyniad i luosydd safonol uwch	Nifer yr hereditamentau
<£500	57,500
£500 - £999	3,800
£1,000 - £1,999	1,900
£2,000 - £2,999	700
£3,000 - £3,999	300
£4,000 - £4,999	100
£5,000 - £5,999	<100
£6,000 - £6,999	<100
£7,000 - £7,999	<100
£7,000 - £8,999	<100
≥£10,000	200

25. Bydd costau gweinyddol cymedrol i awdurdodau lleol o ran rhoi lluosyddion gwahaniaethol ar waith, a hynny yn rhan o'u cyfrifoldeb dros weinyddu ardrethi annomestig (e.e. diweddariadau meddalwedd bilio). Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £15,000 ychwanegol i bob awdurdod lleol, sef cyfanswm o £330,000, i dalu costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu newidiadau polisi newydd i gefnogi talwyr ardrethi yn 2026-27.

Opsiwn 3 – Deddfu i roi effaith i luosydd manwerthu a lluosydd uwch (gwneud y Rheoliadau)

26. Byddai'r manteision i dalwyr ardrethi cymwys ar luosydd manwerthu is, wedi'i osod ar 0.350, yr un fath ag ar gyfer opsiwn 2. Yn hytrach nag addasu'r lluosydd safonol i gynnal refeniw cyffredinol, byddai tua 3,700 o hereditamentau yn ddarostyngedig i luosydd uwch. Ni fyddai unrhyw effaith ar dalwyr ardrethi ar gyfer hereditamentau sy'n ddarostyngedig i'r lluosydd safonol. [Cyhoeddwyd](#) crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r opsiwn hwn ar 7 Hydref, yn dilyn yr ymgynghoriad ar y cynigion polisi.
27. Er mwyn sicrhau nad yw cyflwyno lluosyddion gwahaniaethol yn lleihau cyfanswm y refeniw ardrethi annomestig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lleol, byddai angen gosod y lluosydd uwch ar 0.515 i wrthbwysu'r cyfanswm manteision amcangyfrifedig o £20m a ddarperir gan y lluosydd manwerthu. Byddai hyn 2.6% yn uwch na'r lluosydd safonol (ar gyfer yr opsiwn hwn neu opsiwn 1), ond dim ond 1% yn uwch na'r lluosydd safonol y byddent yn ddarostyngedig iddo o dan opsiwn 2.
28. Byddai'r gost ariannol i dalwr ardrethi unigol yn gymesur â'i atebolrwydd, yn seiliedig ar werth ardrethol yr hereditament ac a yw'n gymwys i gael unrhyw ryddhad. Er enghraifft, byddai'r gost yn 2026-27 yn £1,313 o'i gymharu ag opsiwn 1, neu'n £505 o'i gymharu ag opsiwn 2, ar gyfer hereditament sydd â gwerth ardrethol o £101,000 nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw ryddhad.

$$\text{Opsiwn 1: } £101,000 \times 0.502 = £50,702$$

$$\text{Opsiwn 2: } £101,000 \times 0.510 = £51,510$$

$$\text{Opsiwn 3: } £101,000 \times 0.515 = £52,015$$

$$\text{Cost: } £52,015 - £50,702 = £1,313 \quad (\text{o'i gymharu ag opsiwn 1})$$

$$\text{Cost: } £52,015 - £51,515 = £505 \quad (\text{o'i gymharu ag opsiwn 2})$$

29. Byddai'r gost hon yn uwch ar gyfer hereditamentau sy'n fwy (yn ôl gwerth). Bydd rhai talwyr ardrethi yn meddiannu mwy nag un hereditament a fyddai'n ddarostyngedig i'r lluosydd uwch.
30. Crynhoir nifer amcangyfrifedig yr hereditamentau a fyddai'n ddarostyngedig i gostau o wahanol symiau isod (Tabl 3). Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar yr atebolrwydd gros ychwanegol (h.y. gan dybio nad oes rhyddhad yn gymwys)

a fyddai'n deillio o luosydd uwch o 0.515, o'i gymharu â'r lluosydd safonol a fyddai fel arall yn gymwys o dan opsiwn 1 (0.502) neu opsiwn 2 (0.510). Ar gyfer talwyr ardrethi sy'n gymwys i gael rhyddhad trosiannol ar ôl yr ailbrisio yn 2026, bydd y costau hyn yn cael eu cyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd.

Tabl 3: Amcangyfrif o'r costau uwch i dalwyr ardrethi ar y lluosydd uwch

Cynnydd mewn atebolrwydd o ganlyniad i luosydd uwch	Nifer yr hereditamentau	
	O'i gymharu ag opsiwn 1	O'i gymharu ag opsiwn 2
<£1,000	0	2,000
£1,000 - £1,999	1,400	1,000
£2,000 - £2,999	900	300
£3,000 - £3,999	400	100
£4,000 - £4,999	300	100
£5,000 - £6,999	200	<100
£7,000 - £9,999	100	<100
≥£10,000	300	<100

Nodyn: nid yw nifer yr hereditamentau yn gwneud cyfanswm o 3,700 oherwydd talgrynnu i'r 100 agosaf.

31. Bydd costau gweinyddol cymedrol i awdurdodau lleol o ran rhoi lluosyddion gwahaniaethol ar waith, a hynny yn rhan o'u cyfrifoldeb dros weinyddu ardrethi annomestig (e.e. diweddariadau meddalwedd bilio). Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £15,000 ychwanegol i bob awdurdod lleol, sef cyfanswm o £330,000, i dalu costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu newidiadau polisi newydd i gefnogi talwyr ardrethi yn 2026-27.

Dewis opsiwn

32. Ni fyddai opsiwn 1 yn cyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru i ailgydbwyso'r system ardrethi annomestig o blaid manwerthwyr bach a chanolig. Gallai naill ai opsiwn 2 neu opsiwn 3 olygu bod yr amcan polisi yn cael ei gyflawni mewn modd niwtral o ran refeniw. Wedi pwysu a mesur, ystyrir bod y fantais o leihau'r lluosydd safonol gymaint â phosibl i'r mwyafrif o dalwyr ardrethi yn gorbwyso effaith tâl atodol bach ar luosydd uwch ar gyfer busnesau mawr.
33. Opsiwn 3, felly, yw'r opsiwn a ffeirir. Mae'n adlewyrchu'r dull gweithredu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 3 Rhagfyr 2025.

Dyletswyddau

34. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Bydd cynorthwyo sector manwerthu cryf, sy'n hanfodol ar gyfer stryd fawr a chanol trefi bywiog a chynaliadwy, yn cyfrannu tuag at y nod llesiant Cymru ffyniannus. Bydd y manteision i ardaloedd a phobl ddifreintiedig, drwy sicrhau mynediad parhaus at siopau lleol, hefyd yn cyfrannu at y nodau llesiant yn ymwneud â Chymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus.
35. **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.** Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

36. **Y Gymraeg.** Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.
37. **Cydraddoldeb.** Mae'n bosibl y bydd effeithiau cadarnhaol ar rai ardaloedd a phobl difreintiedig, gan gynnwys y rhai yr effeithir arnynt gan allgáu digidol, sy'n arbennig o ddibynnol ar fynediad i siopau lleol. Yng Nghymru, nid yw 7% o oedolion ar-lein, sy'n uwch na chyfartaledd y DU ac yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig (fel y'u pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Mae'r rhain yn cynnwys pobl hŷn, pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor, pobl â chyrhaeddiad addysgol is ac anfantais economaidd-gymdeithasol, cymunedau gwledig a phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.
38. **Y sector gwirfoddol.** Mae meddianwyr hereditamentau annomestig yn y sector gwirfoddol yn ddarostyngedig i ardrethi annomestig. Bydd tua 800 o siopau elusen yn elwa ar y lluosydd manwerthu is, a bydd tua 250 o hereditamentau a feddiannir gan elusennau yn ddarostyngedig i'r lluosydd uwch. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad elusennol gorfodol o 80%, y gall yr awdurdod lleol ychwanegu ato, gan gyfyngu ar raddfa manteision a chostau lluosyddion gwahaniaethol.
39. **Cyfiawnder.** Bydd lluosyddion gwahaniaethol yn cael eu cymhwyso yn seiliedig ar werth ardrethol hereditament a'i ddisgrifiad ar y rhestr ardrethu annomestig. Caiff y ddwy agwedd eu pennu gan Asiantaeth y Swyddfa Brizio, sy'n annibynnol, ac maent yn ddarostyngedig i hawl sefydledig i apelio. Mae posibilrwydd y gall nifer yr apeliadau gynyddu, ond nid yw'n bosibl rhag-weld y nifer yn union. Disgwylir iddynt aros yn gyffredinol o fewn ffiniau'r amrywiadau blynyddol presennol. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro nifer yr apeliadau gan weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brizio a Thribiwnlys Prisio Cymru.
40. **Asesu'r gystadleuaeth.** Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gymhwyso i'r Rheoliadau. Mae'n annhebygol y bydd y Rheoliadau yn cael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth.
41. **Adolygu ar ôl gweithredu.** Bydd data ar ardrethi annomestig yn parhau i gael ei ddarparu bob blwyddyn gan awdurdodau lleol ac Asiantaeth y Swyddfa Brizio. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro nifer yr hereditamentau sy'n ddarostyngedig i naill ai'r lluosydd manwerthu is neu'r lluosydd uwch, yn ogystal â'u cyfraniad at refeniw ardrethi annomestig cyffredinol. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o gynnal lluosyddion gwahaniaethol, a hynny yn rhan o osod yr holl lluosyddion bob blwyddyn.